



Glandŵr  
Cymru

The Canal & River Trust in Wales

## **CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

---

28 Mehefin 2013

Andrew Stumpf  
Pennaeth Cymru

## CEFNDIR CANAL & RIVER TRUST

Canal & River Trust yw un o elusennau diweddera'r DU, a grëwyd ym mis Gorffennaf 2012 i olynu Dyfrffyrdd Prydain. Ni hefyd yw un o elusennau mwya'r wlad ac rydym yn gwarchod 2,000 o ddyfrffyrdd mewndirol hanesyddol yng Nghymru a Lloegr.

Credwn fod ein camlesi a'n hafonydd yn drysorau cenedlaethol ac yn hafan leol i bobl a bywyd gwyllt. Ein gwaith ni yw gofalu am yr etifeddiaeth wych hon, a'i dal mewn ymddiriedolaeth i'r genedl am byth.

Mae ein cyfrifoldebau yn cynnwys camlesi, afonydd, dociau a chronfeydd dŵr yn ogystal â'u cynefinoedd a'u hadeiladau hanesyddol, archifau a thair amgueddfa'r dyfrffyrdd, gan gynnwys y National Waterways Museum. Hoffem feddwl bod ein gwaith yn meithrin cysylltiad rhwng pobl, natur a hanes.

Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi cyfraniad y dyfrffyrdd yng Nghymru o ran creu gwlad ddiwydiannol gynta'r byd, a bod hynny'n rhan hollbwysig o dreftadaeth ddiwylliannol a chymdeithasol Cymru. Mae'r Gymraeg hithau yn rhan bwysig o'r dreftadaeth fyw hon ac yn ychwanegu at hynodrwydd arbennig y wlad.

Credwn mai'r unig ffordd o sicrhau gwir botensial ein camlesi yng Nghymru a'u goroesiad hirdymor yw trwy ymgysylltu'n llawn â'n hymwelwyr, ein cymdogion a'n partneriaid busnes. Drwy harneisio eu hewyllys da, eu brwdfrydedd a'u harbenigedd, gallwn ehangu'r cyfleoedd i fwynhau'r dyfrffyrdd heddiw a'u diogelu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Felly, rydym yn credu ei bod yn hynod bwysig i ddefnyddwyr gael cyfle i leisio barn ynglŷn â sut mae'r dyfrffyrdd yn cael eu rhedeg. Dyna pam ein bod ni wedi sefydlu ein Partneriaethau Dyfrffyrdd. Mae gennym 11 Partneriaeth sy'n adlewyrchu ffiniau gweinyddol a daearyddol y dyfrffyrdd, partneriaeth benodol ar gyfer ein hamgueddfeydd a'n hatyniadau, ac un arbennig ar gyfer Cymru.

Mae'r ddwy Bartneriaeth drawsffiniol, sef Gogledd Cymru a'r Gororau a De Cymru a Hafren yn cynghori a chefnogi gwaith tîm yr Ymddiriedolaeth yn yr ardaloedd hynny. Mae ein Partneriaeth Cymru Gyfan yn hyrwyddo gwerth presennol y dyfrffyrdd a'u potensial i'r dyfodol ar lefel genedlaethol ac yn gofalu bod yr hyn a wnawn fel Ymddiriedolaeth yn cyd-fynd ag anghenion tymor hir Cymru, ei busnesau a'i chymunedau. Mae pob Partneriaeth yn datblygu gweledigaeth a strategaeth gyffredinol ar gyfer ei maes dylanwad. Mae Partneriaeth Cymru Gyfan yn cydweithio'n agos â'r ddwy Bartneriaeth Dyfrffyrdd drawsffiniol er mwyn sicrhau bod un strategaeth gydlynol i ddyfrffyrdd Cymru sy'n adlewyrchu blaenoriaethau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol Cymru, gan gynnwys strategaeth ar gyfer ymgysylltiad a chyfranogiad lleol yng Nghymru. Mae cefnogaeth i'r iaith Gymraeg yn rhan annatod o'u strategaeth, ac maen nhw wedi cymeradwyo cynllun iaith Gymraeg Glandŵr Cymru.

Mae'r tair Partneriaeth yn datblygu Cynllun Deng Mlynedd ar y cyd ar gyfer dyfrffyrdd Cymru.

Ewch i'r wefan [www.canalrivertrust.org.uk](http://www.canalrivertrust.org.uk) am fanylion corfforaethol

## **1 Cyflwyniad**

Canal & River Trust yn dymuno cefnogi arferion gorau yng Nghymru o safbwynt cydraddoldeb ieithyddol. Mae'r cynllun hwn yn disgrifio sut y bydd Canal & River Trust yn gweithredu'r egwyddor a sefydlwyd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg, sef y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin ar sail gyfartal wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, i'r graddau ei fod yn briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol gwneud hynny.

Bydd y cynllun yn cael ei adolygu a'i ddiwygio fel sy'n briodol ar ôl i Lywodraeth Cymru gyhoeddi Safonau diwygiedig.

Caiff y cynllun ei gefnogi'n llawn gan ein Hymddiriedolwyr, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phartneriaeth Cymru Gyfan.

## **2 Polisiâu, gwasanaethau a mentrau**

2.1 Bydd ein polisiâu, ein gwasanaethau a'n mentrau yn gyson â'r cynllun. Byddant yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg ac yn bachu ar bob cyfle rhesymol i sicrhau eu bod yn helpu'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd.

2.2 Wrth gyfrannu at ddatblygu neu gyflwyno polisiâu, mentrau neu wasanaethau dan law sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hyn mewn modd sy'n gyson â hyn a'u cynllun hwythau.

2.3 Byddwn yn sicrhau bod yr holl staff sy'n gysylltiedig â chreu polisiâu a mentrau – a darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru – yn ymwybodol o ofynion y Cynllun hwn.

## **3 Dogfennau a chytundebau cyfreithiol**

3.1 Bydd dogfennau cyfreithiol a chytundebau cyfreithiol ag unigolion, sefydliadau neu grwpiau yn cael eu cynnig yn newis iaith y derbynnydd. Bydd mapiau ac atodiadau eraill mewn cytundebau o'r fath sydd wedi'u benthyca neu eu defnyddio dan drwydded, yn ymddangos yn iaith wreiddiol y ffynhonnell honno.

## **4 Darparu gwasanaethau**

4.1 Byddwn yn sicrhau bod cymaint ag sy'n ymarferol bosibl o'n gwasanaeth ar gael yn y Gymraeg – a byddwn yn rhoi gwybod i'r cyhoedd pan fyddant ar gael.

## **5 Safonau gwasanaethau Cymraeg**

5.1 Bydd gwasanaethau a ddarperir trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg o ansawdd cyfartal, ac yn cael eu darparu o fewn yr un amserlen.

## **6 YMDRIN Â'R CYHOEDD SY'N SIARAD CYMRAEG**

### **6.1 Cyfathrebu ysgrifenedig**

6.1.1 Mae'r Ymddiriedolaeth yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg.

6.1.2 Bydd gohebiaeth a gawn yn y Gymraeg yn derbyn ateb Cymraeg oni cheir cais i'r gwrthwyneb. Bydd yr amserlen ar gyfer ateb llythyrau Cymraeg yr un fath ag amserlen ymateb i lythyrau Saesneg.

6.1.3 Byddwn yn llofnodi pob llythyr a anfonir yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.

6.1.4 Ar ôl sgwrs ffôn neu sgwrs wyneb yn wyneb yn y Gymraeg, byddwn yn gohebu trwy gyfrwng y Gymraeg wedyn, oni cheir cais i'r gwrthwyneb.

6.1.5 Pan fyddwn yn dechrau gohebu gydag unigolyn, grŵp neu sefydliad, byddwn yn gwneud hynny'n Gymraeg os gwyddom y byddai'n well ganddynt ohebu'n Gymraeg.

6.1.6 Yn amodol ar y system sgorio isod, pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu gylchlythyr at sawl derbynnydd yng Nghymru, bydd yn ddwyieithog oni bai y gwyddom y byddai'n well gan bob derbynnydd ei chael naill ai'n Gymraeg yn unig neu'n Saesneg yn unig.

6.1.7 Byddwn yn defnyddio'r system sgorio, i'w chytuno gan yr Ymddiriedolwyr, i nodi'n wrthrychol unrhyw ohebiaeth safonol neu gylchlythyrau na fydd angen eu cyhoeddi'n Gymraeg, neu'n ddwyieithog (er enghraifft, pan fo'r ohebiaeth yn dechnegol iawn neu'n hirfaith).

6.1.8 Os oes rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein harfer safonol fydd sicrhau bod y ddwy fersiwn ar gael yr un pryd.

6.1.9 Bydd unrhyw wybodaeth amgaeedig a anfonir gyda llythyrau dwyieithog yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.

6.1.10 Bydd unrhyw wybodaeth a anfonir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg neu'n ddwyieithog, pan fydd ar gael.

6.1.11 Bydd yr uchod yn berthnasol i ohebiaeth e-bost yn ogystal â gohebiaeth bapur.

### **6.2 Cyfathrebu dros y ffôn**

6.2.1 Oherwydd lleoliad prif swyddfa'r Ymddiriedolaeth yn Milton Keynes, a'n timau gweithredol, proffesiynol a thechnegol yn Lloegr, ni fyddai'n ymarferol i staff wedi eu lleoli yn y swyddfa honno gynnal sgysiau ffôn yn Gymraeg. Fodd bynnag, pan fyddwn yn trefnu llinellau cymorth, neu gyfleusterau tebyg, i roi gwybodaeth i'r cyhoedd yng Nghymru, byddwn yn darparu gwasanaeth Cymraeg. Hysbysebhir hyn ochr yn ochr â'r gwasanaeth Saesneg. Bydd y ddau wasanaeth yn rhannu'r un rhif ffôn.

6.2.2 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn annog staff sydd naill ai wedi'u lleoli yng Nghymru neu'n gwasanaethu Cymru i ateb y ffôn gyda chyfarfodiad dwyieithog a defnyddio negeseuon dwyieithog ar eu peiriannau ateb personol.

6.2.3 Os bydd galwr yn ffonio llinell uniongyrchol swyddfa yng Nghymru ac yn dymuno siarad Cymraeg, ond nad yw'r atebwr yn gallu gwneud hynny, rhoddir dewis i'r galwr, fel y bo'n briodol – naill ai cael siaradwr Cymraeg i'w ffonio'n ôl ar amser penodol, parhau â'r alwad yn Saesneg, neu anfon ymholiad Cymraeg trwy lythyr neu e-bost.

## **7 Cyfarfodydd cyhoeddus a chyfarfodydd eraill yng Nghymru**

7.1 Byddwn yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg mewn cyfarfodydd cyhoeddus neu gyfarfodydd a fynychir drwy wahoddiad, a drefnir gan yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru.

7.2 Bydd gwahoddiadau a hysbysiadau sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i gyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru'n ddwyieithog, ac yn gwahodd mynychwyr sy'n dymuno siarad Cymraeg i roi gwybod ymlaen llaw, er mwyn i ni drefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.

7.3 Bydd gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac adroddiadau yn ymwneud â chyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru yn ddwyieithog lle maent ar gael.

7.4 Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd yng Nghymru, bydd yr Ymddiriedolaeth yn holi am eu dewis iaith ar y cyfle cyntaf ac yn sicrhau bod aelod o staff cymwys sy'n siarad Cymraeg yn ymdrin â'r rhai sy'n dymuno siarad Cymraeg.

7.5 Os na fydd siaradwr Cymraeg cymwys ar gael, bydd yr Ymddiriedolaeth yn cynnig y dewis iddynt barhau â'r cyfarfod yn Saesneg, neu ymdrin â'r mater drwy ohebu'n Gymraeg.

7.6 Oherwydd eu lleoliad, ni fyddai'n ymarferol i'r staff sy'n gweithio yn ein swyddfeydd y tu allan i Gymru gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **WYNEB CYHOEDDUS GLANDŴR CYMRU**

8.1 Mae gan Glandŵr Cymru ei hunaniaeth a'i logo unigryw ei hun. Bydd pob dynodwr corfforaethol o eiddo'r Ymddiriedolaeth ledled Cymru yn ddwyieithog ac yn dangos logo Cymru. Bydd yr holl wybodaeth ar ddeunyddiau print yr Ymddiriedolaeth a ddefnyddir yng Nghymru, neu a ddefnyddir o Loegr lle mae'r derbynnydd neu'r gwyliwr yng Nghymru, yn ddwyieithog ac yn cynnwys logo Cymru. Mae hyn yn cynnwys deunyddiau fel cardiau busnes, pasiau, tocynnau, slipiau cyfarch, gwahoddiadau a cherbydau.

### **9.1 Cyhoeddiadau a deunydd wedi'i argraffu**

9.1.1 Bydd cyhoeddiadau neu ddeunydd wedi'i argraffu gan yr Ymddiriedolaeth sydd i'w dosbarthu, ei werthu neu eu defnyddio yng Nghymru yn cael ei gyhoeddi'n ddwyieithog, yn amodol ar y system sgorio y cyfeirir ati isod. Fel arfer, byddwn yn cyhoeddi'r ddwy iaith gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint ac ansawdd, yn cael eu cyhoeddi a'u lansio ar yr un diwrnod a'u dosbarthu a'u harddangos gyda'i gilydd yng Nghymru. Bydd y naill fersiwn a'r llall yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

9.1.2 Os na fydd y dogfennau ar gael am ddim, ni fydd pris dogfen ddwyieithog yn fwy na phris cyhoeddiad uniaith – a'r un fydd pris dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

9.1.3 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gyda Chomisiynydd y Gymraeg, i asesu'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi deunydd mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

9.1.4 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gyda Chomisiynydd y Gymraeg, sy'n nodi sut y byddwn yn cynyddu'r dogfennau dwyieithog sydd ar gael, dros amser.

### **9.2 Ffurflenni a deunyddiau esboniadol cysylltiedig**

9.2.1 Byddwn yn sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol cysylltiedig a ddefnyddir gan y cyhoedd yng Nghymru yn cynnwys logo Cymru ac yn gwbl ddwyieithog, yn amodol ar y system sgorio y cyfeirir ati isod. Fel arfer, bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn

gyfartal o ran maint ac ansawdd, yn cael eu cyhoeddi a'u lansio ar yr un diwrnod a'u dosbarthu a'u harddangos gyda'i gilydd yng Nghymru. Bydd y naill fersiwn a'r llall yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.

9.2.2 Byddwn yn defnyddio system sgorio, y cytunir arni gyda'r Ymddiriedolwyr, i asesu'n wrthrychol pryd y dylid cyhoeddi ffurflenni a deunyddiau esboniadol cysylltiedig mewn fersiynau yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wahân neu fel dogfennau dwyieithog.

9.2.3 Byddwn yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gyda Chomisiynydd y Gymraeg, i gynyddu nifer y ffurflenni sydd ar gael yn ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

## **10 Gwefan**

10.1 Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau penodol i Gymru, yn y Gymraeg a'r Saesneg, sy'n ymwneud â gweithgareddau yng Nghymru, gan gynnwys y polisi hwn, Partneriaeth Cymru Gyfan, Grŵp Trawsbleidiol y Cynulliad ar Ddyfrffyrdd, a thudalennau Cymraeg a Saesneg yn ymwneud â chamlesi yng Nghymru.

10.2 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn paratoi rhaglen, y cytunir arni gyda Chomisiynydd y Gymraeg, sy'n nodi sut y byddwn yn cynyddu cynnwys Cymraeg ein gwefan dros amser.

10.3 Wrth ddylunio gwefannau newydd, neu ailddatblygu gwefannau cyfredol, byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Comisiynydd y Gymraeg ac unrhyw ganllawiau eraill a gyhoeddir gan y Comisiynydd ynglŷn â datblygu gwefannau.

10.4 Pan fyddwn ni'n rhoi cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, bydd y fersiynau Cymraeg yn ymddangos yr un pryd, os ydynt ar gael.

## **11 Hysbysiadau'r wasg**

11.1 Bydd hysbysiadau penodol ar gyfer y cyfryngau Cymraeg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi gan ddefnyddio logo Cymru, ac yn y Gymraeg heblaw mewn argyfwng.

## **12 Gweithgareddau cyhoeddusrwydd**

12.1 Bydd yr holl ddeunyddiau cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a deunyddiau hysbysebu a ddefnyddiwn yng Nghymru yn cynnwys logo Cymru ac yn gwbl ddwyieithog, neu fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os oes rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddwy fersiwn yn gyfartal o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd. Bydd y ddwy fersiwn ar gael ar yr un pryd a'r un mor hygyrch.

12.2 Bydd hysbysebion ar gyfer papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg a ddsberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn defnyddio logo Cymru ac yn ddwyieithog (ac eithrio mewn argyfwng) neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

12.3 Bydd arddangosfeydd parhaol a dros dro, stondinau sioeau a byrddau gwybodaeth a ddefnyddir yng Nghymru yn defnyddio logo Cymru ac yn ddwyieithog.

12.4 Bydd ymchwil i'r farchnad neu arolygon cwsmeriaid a gyflawnir gan, neu ar ran yr Ymddiriedolaeth yng Nghymru, yn defnyddio ffurflenni dwyieithog, a rhoddir dewis i'r sawl sy'n cael ei gyfweld i gael ei holi'n Gymraeg neu'n Saesneg.

12.5 Wrth fynychu arddangosfeydd neu ddigwyddiadau yng Nghymru, ein harfer safonol fydd sicrhau bod siaradwr Cymraeg cymwys yn bresennol, fel bo'r angen.

## **13 Arwyddion**

13.1 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn sicrhau bod unrhyw arwyddion parhaol a dros dro, byrddau gwybodaeth, hysbysiadau rhybudd a hysbysiadau cyfreithiol yn cynnwys logo Cymru ac yn ddwyieithog yng Nghymru. Bydd unrhyw eitemau newydd yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, a bydd hen eitemau'n cael disodli gan rai dwyieithog pan mae angen eu newid.

13.2 Bydd yr holl arwyddion a hysbysiadau swyddogol mewn adeiladau yng Nghymru yn ddwyieithog ac yn cynnwys logo Cymru.

13.3 Byddwn yn sicrhau bod y testun Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran maint, ansawdd, eglurder ac amlygrwydd ar ein holl arwyddion a hysbysiadau yng Nghymru.

## **14 Hysbysiadau swyddogol, cyhoeddus a recriwtio**

14.1 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysebion recriwtio staff a gyhoeddir mewn papurau newydd (neu gyfryngau tebyg) Saesneg a ddsberthir yng Nghymru'n bennaf neu'n gyfan gwbl, yn ddwyieithog, neu'n ymddangos fel fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

14.2 Bydd hysbysiadau mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn ymddangos yn Gymraeg, gyda logo Cymru.

14.3 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gyfartal o ran fformat, maint, ansawdd ac amlygrwydd – boed yn cael eu cyhoeddi fel un fersiwn ddwyieithog, neu fel hysbysiadau Cymraeg a Saesneg ar wahân.

14.4 Gellir cyhoeddi hysbysiadau recriwtio sy'n ymddangos mewn cyfnodolion (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg a ddsberthir ledled y DU yn y Saesneg yn unig, oni bai ei bod yn hanfodol i ddeiliad y swydd siarad Cymraeg. Os felly, gall yr hysbyseb fod yn gwbl ddwyieithog, neu'n Gymraeg gydag esboniad cryno yn Saesneg.

## **RHOI'R CYNLLUN AR WAITH**

### **15 Staffio**

15.1 Byddwn yn nodi'r gweithleoedd a'r swyddi hynny lle mae'r gallu i siarad Cymraeg naill ai'n ddymunol neu'n hanfodol. Gellir diffinio'r gofyniad hwn fel elfen o weithle neu dîm, neu gall fod yn gysylltiedig â swydd benodol.

15.2 O bryd i'w gilydd, byddwn yn cynnal archwiliadau i weld faint o staff sy'n gallu siarad, darllen ac ysgrifennu Cymraeg, yn ogystal â lefel eu gallu a'u lleoliad (gan gynnwys staff sy'n dysgu Cymraeg). Byddwn hefyd yn nodi staff sy'n dymuno dysgu Cymraeg.

15.3 Byddwn yn cymharu canlyniadau'r ddau ymarferiad hyn er mwyn nodi'r gweithleoedd sydd â phrinder staff Cymraeg eu hiaith.

15.4 Byddwn yn ymateb i unrhyw brinder trwy gyfrwng ein gweithgareddau recriwtio a hyfforddi.

### **16 Recriwtio**

16.1 Pan fydd y gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol neu'n hanfodol, byddwn yn nodi hyn yn adran gymwyseddau'r swydd ac mewn hysbysebion.

16.2 Os na fydd ymgeiswyr addas sy'n siarad Cymraeg ar gyfer swydd lle mae'r Gymraeg yn ddymunol, bydd y sawl a benodir yn cael ei annog i ddysgu'r iaith.

16.3 Gellir penodi ymgeisydd nad yw'n gallu siarad Cymraeg i swydd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn cael ei ystyried yn hanfodol, ond lle gellir caniatáu amser iddo ddysgu'r iaith. Mewn achosion o'r fath, bydd y gallu i ddysgu'r iaith hyd at y lefel cymhwysedd ofynnol, o fewn cyfnod rhesymol y cytunir arno, yn un o amodau'r swydd.

16.4 Yn achos swyddi sy'n cynnwys cyswllt helaeth a rheolaidd gyda'r cyhoedd yng Nghymru o'n swyddfeydd y tu allan i Gymru, byddwn yn ystyried a ddylai rhuglder yn y Gymraeg fod yn sgil ddymunol neu hanfodol – a byddwn yn nodi hyn yn adran gymwyseddau'r swydd ac mewn hysbysebion.

## **17 Hyfforddiant a chyfleoedd staff**

17.1 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn helpu i weithredu'r cynllun hwn, drwy annog a chefnogi staff sydd am ddysgu Cymraeg, neu wella'u gallu i siarad Cymraeg. Rhoddir blaenoriaeth i'r rheini sydd â chyswllt sylweddol a rheolaidd gyda siaradwyr Cymraeg fel rhan o'u gwaith.

## **18 Cyfieithu**

18.1 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn defnyddio cyfieithwyr cymwys proffesiynol er mwyn helpu i ddarparu'r cynllun hwn.

## **19 Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu**

19.1 Byddwn yn ystyried yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasu, a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn, wrth i ni ddatblygu, cynllunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

19.2 Wrth i ni ddatblygu neu brynu systemau TGCh byddwn yn ystyried Canllawiau a Safonau Meddalwedd Dwyieithog Comisiynydd y Gymraeg.

## **20 Gweithio mewn partneriaeth**

Dim ond i bartneriaethau sy'n ymdrin â gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru y mae'r isod yn berthnasol.

20.1 Pan fo'r Ymddiriedolaeth yn arwain partneriaeth yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod unrhyw agweddau ar wasanaeth cyhoeddus yn cydymffurfio â'r cynllun hwn.

20.2 Wrth ymuno â phartneriaeth yng Nghymru dan arweiniad sefydliad arall, bydd ein cyfraniad ni'n cydymffurfio â'r cynllun hwn.

## **21 Trefniadau mewnol**

21.1 Mae gan y mesurau yn y cynllun hwn awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth lawn Ymddiriedolwyr Glandŵr Cymru.



21.2 Y Cyfarwyddwr Marchnata fydd yn gyfrifol am weithredu, cydlynu a monitro'r cynllun. Bydd cyfarwyddwyr a rheolwyr yn gyfrifol am weithredu'r agweddau hynny ar y cynllun sy'n berthnasol i'w adrannau a'u tимоedd nhw.

21.3 Byddwn yn paratoi cynllun gweithredu manwl sy'n dangos sut mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu yn unol â'r cynllun hwn a byddwn yn ei ddiweddarau'n barhaus. Bydd y cynllun gweithredu, y cytunir arno gyda'r Ymddiriedolwyr, yn dod i rym ar y dyddiad y daw'r cynllun iaith i rym, neu cyn gynted â phosibl wedi hynny. Bydd y cynllun yn cynnwys targedau, terfynau amser ac adroddiad ar gynnydd yn erbyn pob targed.

21.4 Bydd cyhoeddusrwydd yn cael ei roi ar y wefan i'r Cynllun i holl staff yr Ymddiriedolaeth, ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Bydd y gwefannau canlynol yn cynnwys dolen gyswllt i'r cynllun:

[www.canalrivertrust.org.uk](http://www.canalrivertrust.org.uk)

<http://www.comisiynyddygybraeg.org/Cymraeg/Pages/Hafan.aspx>

21.5 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn trefnu sesiynau briffio i'r staff hynny y gallai'r cynllun effeithio ar eu gwaith bob dydd, trwy gyfrwng sgysiau tîm rheolaidd.

21.6 Byddwn yn cysylltu â'r cyhoedd yng Nghymru mewn unrhyw ffordd arall na ddisgrifir yn benodol yn y cynllun, mewn modd sy'n gyson ag egwyddorion cyffredinol y cynllun.

## **22 Monitro ac adrodd am gynnydd**

22.1 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn monitro'r cynnydd o ran cyflwyno'r cynllun yn barhaus i sicrhau bod yr ymrwymiad i gydraddoldeb ieithyddol a thargedau'r cynllun gweithredu yn cael eu bodloni.

22.2 Bydd yr Ymddiriedolaeth yn darparu adroddiadau yn amlinellu'r cynnydd diweddaraf o ran cyflwyno'r cynllun, ar gais Comisiynydd y Gymraeg.

22.3 Bydd y Cyfarwyddwr Marchnata yn paratoi adroddiad blynyddol ar y broses fonitro a bydd crynodeb o berfformiad yr Ymddiriedolaeth wrth weithredu'r cynllun yn rhan o'r adroddiad blynyddol statudol.

## **23 Adolygiadau a diwygiadau**

23.1 Bydd y Cynllun yn cael ei adolygu bob tair blynedd o'r dyddiad gweithredu, neu fel a phan fo'r Safonau yn newid, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

23.2 Efallai y bydd angen i'r Ymddiriedolaeth adolygu'r cynllun neu gynnig diwygiadau iddo o bryd i'w gilydd, oherwydd newidiadau o fewn y sefydliad, neu am unrhyw reswm arall.

23.3 Ni wneir unrhyw newidiadau i'r cynllun heb gymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

## **24 Sylwadau a chwynion**

24.1 Dylid anfon unrhyw sylwadau a/neu gwynion am y cynllun hwn i:

Canal & River Trust,

First Floor North

Station House,

500 Elder Gate, Milton Keynes

Ffôn: 0303 404 4040

E-bost: [customer.services@canalrivertrust.org.uk](mailto:customer.services@canalrivertrust.org.uk)